OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2001 Rhif 2679 (Cy. 220)

# BWYD, CYMRU

## Rheoliadau Melysyddion mewn Bwyd (Diwygio) (Cymru) 2001

| | |
|---|---|
| *Wedi'u gwneud - -* | *17 Gorffennaf 2001* |
| *Yn dod i rym - -* | *1 Awst 2001* |

Drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 16(1)(a) ac (e), 17(1), 26(1) a (3), a 48(1) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990(**1**) a pharagraff 1 o Atodlen 1 iddi, sydd bellach wedi'u breinio yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru(**2**), mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ar ôl rhoi sylw yn unol ag adran 48(4A) o'r Ddeddf honno i gyngor perthnasol a roddwyd gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd ac ar ôl ymgynghori yn unol ag adran 48(4) a (4B) o'r Ddeddf honno, drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.** Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Melysyddion mewn Bwyd (Diwygio) (Cymru) 2001, deuant i rym ar 1 Awst 2001 a byddant yn gymwys i Gymru.

### Dehongli

**2.** Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "y prif Reoliadau" ("the principal Regulations") yw Rheoliadau Melysyddion mewn Bwyd 1995(**3**).

### Diwygio'r prif Reoliadau

**3.**—(1) Caiff y prif Reoliadau eu diwygio, i'r graddau y maent yn gymwys i Gymru, yn unol â pharagraff (2) isod.

(2) Yn rheoliad 2(1) (dehongli), yn y diffiniad o "Directive 95/31/EC" ychwanegir y geiriau ", and by Directive 2000/51/EC insofar as it relates to E965 (ii) syrup maltitol "(**4**) ar y diwedd.

---

(**1**) 1990 p.16.

(**2**) Cafodd swyddogaethau "the Ministers" o dan Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990, i'r graddau y maent yn arferadwy mewn perthynas â Chymru eu trosglwyddo i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).

(**3**) O.S. 1995/3123: yr offerynnau diwygio perthnasol yw OS 1996/1477, 1997/814 a 1999/982.

(**4**) Y cyfeiriad ar gyfer Cyfarwyddeb 2000/51/EC yw OJ Rhif L198, 4.8.2000, t.41.

**Diwygiad canlyniadol**

**4.**—(1) I'r graddau y mae unrhyw ddarpariaeth a bennir yn rheoliad 3(2) o Reoliadau Melysyddion mewn Bwyd (Diwygio) 1999(**5**) yn gymwys i Gymru, bydd effaith paragraff 3(1) o'r rheoliad hwnnw yn peidio mewn perthynas â'r ddarpariaeth honno.

(2) Yn y darpariaethau a bennir ym mharagraff (3) isod, i'r graddau y maent yn gymwys i Gymru, dehonglir cyfeiriadau at y prif Reoliadau fel cyfeiriadau at y Rheoliadau hynny fel y maent wedi'u diwygio hyd at a chan gynnwys y diwygiad a wneir gan y Rheoliadau hyn.

(3) Dyma'r darpariaethau y mae paragraff (2) uchod yn cyfeirio atynt —

(a) diffiniad "permitted sweetener" yn rheoliad 2(1) (dehongli) o Reoliadau Jam a Chynhyrchion Tebyg 1991(**6**);

(b) diffiniad "additive" yn rheoliad 2(1) (dehongli) o Reoliadau Cynhyrchion Cig a Chynhyrchion Pysgod Taenadwy 1984(**7**);

(c) diffiniad "sweetener" yn Rhan II o Atodlen 1 (categorïau ychwanegion bwyd) i Reoliadau Labelu Ychwanegion Bwyd 1992(**8**);

(ch) diffiniad "sweetener" yn rheoliad 2(1) (dehnogli) o Reoliadau Ychwanegion Bwyd Amrywiol 1995(**9**); a

(d) Rheoliadau Labelu Bwyd 1996(**10**)—

(i) paragraff (1) o reoliad 34 (bwydydd sy'n cynnwys melysyddion, siwgr ychwanegol a melysyddion, aspartame neu bolyolau); a

(ii) yn Atodlen 8 (disgrifiadau camarweiniol) Rhan I (cyffredinol), yr amod yng ngholofn 2 gyferbyn â'r disgrifiad "ice cream" yng ngholofn 1.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**11**).

*D. Elis-Thomas*

17 Gorffennaf 2001 — Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**5**) OS 1999 /982.
(**6**) OS 1981/1063: yr offerynnau diwygio perthnasol yw OS 1983/1211 a 1995/3123.
(**7**) OS 1984/1566: yr offerynnau diwygio perthnasol yw OS 1995/3123, 1995/3124 a 1995/3187.
(**8**) OS 1992/1978, yr offeryn diwygio perthnasol yw OS 1995/3123.
(**9**) OS 1995/3187, y ceir diwygiad iddo nad yw'n berthnasol i'r Rheoliadau hyn.
(**10**) OS 1996/1499 y ceir diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.
(**11**) 1998 p.38.

---

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn, sy'n gymwys i Gymru, yn diwygio ymhellach Reoliadau Melysyddion mewn Bwyd 1995 (O.S. 1995/3123), a hynny drwy ddiweddaru cyfeiriad at Gyfarwyddeb 95/31/EC ynghylch meini prawf purdeb penodol er mwyn ymdrin â diwygiad i'r cyfeiriad a wnaed gan Gyfarwyddeb 2000/51/EC i'r graddau yr amnewidiodd y Gyfarwyddeb honno fanylebau newydd ar gyfer syrop maltitol a thrwy ddiweddaru cyfeiriadau at Reoliadau 1995 mewn Rheoliadau eraill.